# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd CBSP

**Y Cynghorydd R M Granville** **Ward:Gogledd Corneli**

## Plaid: Llafur

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Corneli ar 4 Mai 2017. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac rwyf wedi codi'n ffurfiol 19 o ymholiadau etholwyr gyda'r cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill rydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

I'm galluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynd i nifer o weithgareddau datblygu aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau fy mod yn cynnal fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y cyngor a'm ward.

Ceir rhagor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddilyn y ddolen hon.

**Gweithgarwch Etholaeth**

Cefais fy ethol y llynedd yn gynghorydd bwrdeistref sirol dros Ben-y-bont ar Ogwr. Un o’m camau gweithredu cyntaf oedd cynnal cymhorthfa, ar ddiwedd pob mis, i helpu'r rhai mewn angen neu ag ymholiadau. Mae'n well gan rai trigolion ymweld â'm cartref neu gysylltu â mi dros y ffôn neu drwy e-bost, gyda'u ymholiadau. Rwy'n ceisio datrys yr holl anawsterau sydd gan fy etholwyr.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yng nghyfarfod llawn diwethaf CBSP, sef y cyfarfod cyffredinol blynyddol, cefais fy ethol yn is-gadeirydd y pwyllgor cynllunio.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

**Y Cynghorydd R M Granville** **Dyddiad: 14 Mehefin 2018**